



Llawlyfr ar gyfer yr Adolygiad o Brentisiaethau Gradd yng Nghymru

Fersiwn drafft ar gyfer ymgynghori

Awst 2020

Cynnwys

Cyflwyniad	1
Gwneud adolygiadau yn ystod pandemig y Coronafeirws (COVID-19)	1
Amcanion y broses adolygu	2
Cwmpas yr adolygiad	2
Trosolwg o'r broses adolygu	3
Pwyntiau cyfeirio allanol	4
Darpariaeth gyfrwng Cymraeg	4
Trosolwg o'r meysydd allweddol sydd dan sylw yn yr adroddiad	4
Maes allweddol un: Cynllunio a datblygu rhaglenni	5
Maes allweddol dau: Dulliau darparu.....	5
Maes allweddol tri: Dysgu ac addysgu	6
Maes allweddol pedwar: Cefnogi cyflawniad y myfyriwr	6
Maes allweddol pump: Aseu	7
Canlyniadau'r adolygiad	7
Nodweddion y broses adolygu	8
Y ddogfen hunanwerthusiad	8
Cyfranogaeth y myfyrywyr	9
Y tîm adolygu.....	11
Y sesiwn briffio i'r darparwr	12
Trywyddau rhaglen.....	12
Gweithgareddau yn ystod yr adolygiad.....	13
Cyfranogaeth cyflogwyr.....	14
Yr amserlen ar gyfer adolygiadau	15
Yr adroddiad adolygu	15
Cynllun Iaith Gymraeg QAA	15
Y gwerthusiad.....	16
Atodiad A: Amserlen y rhaglen adolygu	17
Atodiad B: Amserlen yr adolygiad o'r darparwr	18
Atodiad C: Cyflwyniad y myfyrywyr	19
Atodiad D: Yr iaith Gymraeg	21

Cyflwyniad

1 Mae'r llawlyfr hwn yn esbonio proses adolygu QAA ar gyfer Prentisiaethau Gradd yng Nghymru yn ystod blwyddyn academiaidd 2020-21. Mae'r adolygiad yn ymwneud â Phrentisiaethau Gradd a ariennir drwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru. Mae'r arian ar gyfer Prentisiaethau Gradd wedi'i gynnig yn y tri maes canlynol sydd â blaenoriaeth: Sgiliau Digidol, Peirianneg a Gweithgynhyrchu Uwch. Cynigiwyd cyfle i gael yr arian hwn ar sail peilot o flwyddyn academiaidd 2018-19 ymlaen. Gallwch weld rhagor o fanylion am y Prentisiaethau Gradd hyn ar wefan CCAUC.¹

2 Lluniwyd yr Adolygiad o Brentisiaethau Gradd i fod yn adolygiad datblygiadol sy'n canolbwyntio ar y ffordd y mae darparwyr addysg uwch yn darparu'r rhaglen, gan gynnwys dysgu seiliedig ar waith. Y nod yw bod canlyniad yr adolygiad hwn yn hysbysu polisïau a blaenoriaethau'r dyfodol, a bydd yn cyfrannu at werthusiad Llywodraeth Cymru o'r cynllun peilot Prentisiaethau Gradd a fydd yn asesu manteision a chanlyniadau bwriadedig y rhaglenni hyn i gyflogwyr ac unigolion.

3 Bwriad y dull adolygu hwn gan QAA yw darparu gwybodaeth am y ffordd y mae Prentisiaethau Gradd yn cael eu datblygu. Er bod tri maes â blaenoriaeth ar gyfer yr ariannu, mae'r adolygiad yn ymwneud â datblygu darpariaeth Prentisiaeth Gradd yng Nghymru ac nid yw'r adolygiad wedi'i seilio ar bynciau. Am fod hwn yn gymhwyster sy'n weddol newydd, bydd yr adolygiad yn defnyddio'r Datganiad o Nodweddion ar gyfer Addysg Uwch mewn Prentisiaethau a gyhoeddir gan QAA fel ei brif bwynt cyfeirio i hysbysu arferion y sector.² Ei nod yw cynnig gwybodaeth i ddarparwyr am effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer sicrhau a gwella ansawdd eu darpariaeth, a bydd yn pennu arferion da ac yn gwneud argymhellion i sicrhau bod y trefniadau ar gyfer sicrhau a gwella ansawdd a safonau'n ddibynadwy. Bydd adroddiad i'r sector cyfan yn rhannu dysgu a datblygiad ar draws yr holl ddarparwyr yng Nghymru.

4 Mae'r llawlyfr adolygiad hwn yn ymwneud â chyd-destun ac amcanion yr adolygiad, y meysydd allweddol sydd dan sylw yn yr adroddiad, a manylion am y broses adolygu a'i hamserlenni. Lluniwyd yr adolygiad i fod yn un datblygiadol gyda chanlyniadau a fydd yn helpu amrywiol randdeiliaid i symud y ddarpariaeth yn ei blaen. I bwrpasau'r llawlyfr hwn, defnyddir y term 'adolygiad' i olygu 'adolygiad datblygiadol'. O ganlyniad i'r broses, datblygir adroddiad adolygu i bob darparwr a ariennir, a rhennir yr adroddiad hwn gyda CCAUC. Am fod y rhain yn adolygiadau o'r rhaglen beilot, ni fwriedir cyhoeddi adroddiadau am ddarparwyr unigol, yn hytrach bwriedir eu defnyddio fel cyfryngau gwerthfawr i hysbysu'r prosesau mewnol o ddatblygu'r ddarpariaeth Prentisiaeth Gradd. Bydd yr adroddiad cyhoeddedig i'r sector cyfan yn rhoi crynodeb dienw o'r ddarpariaeth a chanfyddiadau'r adolygiadau, a bydd yn gwneud argymhellion ar gyfer darparu'r rhaglenni yn y dyfodol.

5 Bydd yr adolygiadau'n digwydd yn ystod tymhorau hydref a gwanwyn blwyddyn academiaidd 2020-21. Mae amserlen y rhaglen adolygu ar gael yn Atodiad A.

Gwneud adolygiadau yn ystod pandemig y Coronafeirws (COVID-19)

6 Ar adeg paratoi'r llawlyfr hwn, mae Llywodraeth y DU a Llywodraethau'r gwledydd datganoledig wedi gosod cyfyngiadau symud mewn ymateb i bandemig y clefyd COVID-19. Wrth i'r darparwyr ddatblygu cynlluniau ar gyfer y flwyddyn academiaidd newydd, mae QAA yn cydnabod bod ansicrwydd ynglŷn â phryd a sut y bydd y mesurau hyn yn cael eu llacio ac a fydd angen gosod cyfyngiadau newydd os bydd y niferoedd sy'n dioddef o'r haint yn codi eto. Mae QAA yn cydnabod y gallai'r cyfyngiadau hynny fod yn fwy lleol ac y gallent amrywio rhwng pedair gwlad y DU, ac y bydd angen i'r ffordd y mae QAA yn gwneud yr adolygiad fod yn

¹ www.hefcw.ac.uk/policy_areas/skills_and_employability/apprenticeships_cy.aspx

² www.qaa.ac.uk/docs/qaa/quality-code/characteristics-statement-apprenticeships.pdf

hyblyg. Bydd QAA yn gweithio gyda darparwyr, partneriaid a chyflogwyr i sicrhau bod timau adolygu'n gweithredu yn unol â'r gweithdrefnau a weithredir gan y llywodraethau hynny, a bydd yn monitro'r cyfarwyddyd iechyd cyhoeddus swyddogol yn agos.³ Mae posibilrwydd y gallai wneud rhywfaint, os nad y cwbl, o'i weithgareddau adolygu ar ffurf rithwir. Os digwydd hynny, bydd QAA yn gweithio gyda'r rheiny sy'n cymryd rhan yn y broses i sicrhau bod y trefniadau ar gyfer cynnal ymgysylltiadau'n glir a bod pawb yn hyderus bod y broses adolygu'n darparu canlyniadau cadarn.

Amcanion y broses adolygu

7 Mae'r Adolygiad o Brentisiaethau Gradd yn broses ddatblygiadol sydd wedi'i llunio i helpu rhanddeiliaid i ddatblygu darpariaeth Prentisiaeth Gradd yng Nghymru. Yn arbennig, nod yr adolygiad yw:

- hysbysu datblygiad y ddarpariaeth Prentisiaeth Gradd drwy adroddiad adolygu am ddarpariaeth y darparwr
- rhannu arferion gyda phartneriaid a chyflogwyr, a hysbysu darpariaeth prentisiaethau yn y dyfodol
- hwyluso rhannu arferion da, gwybodaeth a ddysgir a meysydd a bennir sydd angen eu datblygu ar draws y sector drwy adroddiad trosolwg
- cynyddu gwerth profiad dysgu'r myfyrwyr a gwerth y prentisiaethau i gyflogwyr
- hysbysu datblygiad y ddarpariaeth Prentisiaeth Gradd yng Nghymru yn y dyfodol.

Cwmpas yr adolygiad

8 Bydd yr adolygiad:

- yn cael ei wneud i bob darparwr Prentisiaethau Gradd arweiniol yng Nghymru sy'n derbyn arian gan CCAUC ar gyfer y meysydd pwnc sydd â blaenoriaeth
- yn cael ei wneud ar gyfer pob darparwr arweiniol, ac yn cynnwys unrhyw golegau addysg bellach sy'n gweithio fel partneriaid darparu, a bydd yn ystyried pa mor effeithiol yw'r cydweithrediad a'r posibilrwydd o ddatblygu llwybrau
- yn defnyddio trywyddau rhaglen i samplu darpariaeth y darparwr a chadarnhau pa mor effeithiol yw ei ddull, ac i bennu arferion sy'n gwneud cyfraniad arbennig o werthfawr i nodweddion y cymhwyster; caiff un trywydd rhaglen ei ddethol o bob fframwaith Prentisiaeth Gradd, fel y bo'n berthnasol, ar gyfer pob adolygiad o ddarparwr
- yn cynnwys ymweliadau â chyflogwyr sy'n darparu prentisiaethau; lle bo'n bosibl, ymwelir â chyflogwyr mewn detholiad o drywyddau rhaglen a bydd y rhain yn cael eu defnyddio i brofi pa mor dda mae'r prosesau sefydliadol yn gweithio a pha mor effeithiol ydynt yn ymarferol ar lefel leol ac ar draws y sefydliad cyfan
- yn ystyried sylwadau a phrofiadau'r myfyrwyr drwy ymgysylltu â'r myfyrwyr a'r prentisiaid
- yn myfyrio sut ystyriaeth gafodd yr iaith Gymraeg wrth ddarparu rhaglenni prentisiaeth
- yn adrodd ar gyfraniad y Prentisiaethau Gradd i hyrwyddo mynediad, cydraddoldeb a chyfle cyfartal.

³ I weld yr wybodaeth ddiweddaraf am COVID-19, ewch i wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru: icc.qig.cymru/pynciau/coronafeirws/

Trosolwg o'r broses adolygu

9 Mae'r dull adolygu wedi'i lunio yn unol â'r egwyddorion sy'n gyffredin i ddulliau adolygu eraill QAA yng Nghymru. Mae'n broses wedi'i seilio ar dystiolaeth a wneir drwy adolygiad gan gymheiriaid. Mae myfyrwyr yn ganolog i bwrpas a phroses yr adolygiad ac yn cyfranogi mewn nifer o ffyrdd (gwelwch baragraffau 31 i 38). Yn ogystal, o ystyried nodweddion penodol Prentisiaethau Gradd, bydd ymweliadau â'r gweithle i gwrdd â chyflogwyr a phrentisiaid.

10 Dyma elfennau allweddol y broses adolygu:

- Hwylusydd a benodir gan y darparwr arweiniol a fydd â chyfrifoldeb o ddydd i ddydd am y trefniadau ar gyfer yr adolygiad ac am sicrhau bod y dystiolaeth ar gael i'r tîm.
- Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr a benodir gan y corff myfyrwyr sy'n helpu i annog cyfranogaeth myfyrwyr yn yr adolygiad, sy'n rhoi pob gwybodaeth iddynt am gynnydd yr adolygiad, ac sy'n gweithredu fel cyswllt rhwng y tîm adolygu a'r myfyrwyr.
- Dogfen hunanwerthusiad a baratoir gan y darparwr arweiniol, mewn cydweithrediad â'i bartneriaid fel y bo'n briodol (gwelwch baragraffau 26 i 30). Dyma asesiad y darparwr o'i berfformiad ei hun a'r man cychwyn ar gyfer yr adolygiad a gwaith y tîm adolygu o ddadansoddi dogfennau a pharatoi ar gyfer yr adolygiad.
- Y cyfle i gorff cynrychioli'r myfyrwyr ddarparu cyflwyniad myfyrwyr sy'n rhoi gwybod am brofiad y myfyrwyr hynny sy'n astudio ar raglenni Prentisiaeth Gradd. Bydd y tîm adolygu'n defnyddio'r cyflwyniad hwn ochr yn ochr â'r ddogfen hunanwerthusiad, a bydd yn helpu i hysbysu ffocws yr adolygiad o safbwynt profiad y myfyrwyr.
- Trywydd rhaglen ar gyfer darpariaeth y darparwr arweiniol ymhob fframwaith Prentisiaeth Gradd. Dyma sail yr ymgysylltiadau â phrentisiaid a chyflogwyr yn y gweithle.
- Sesiwn briffio QAA i staff gan ddarparwyr arweiniol a cholegau, cyflogwyr a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr, i esbonio natur ac agweddau ymarferol y broses adolygu.
- Tîm adolygu o ddau adolygwr gyda chefnogaeth Swyddog QAA. Dewisir adolygwyr ar sail eu profiad a'u gwybodaeth am brentisiaethau uwch a dysgu seiliedig ar waith. Penodir adolygwyr o bob cwr a phob gwlad o'r DU i ddod â safbwynt ehangach i'r broses adolygu fel ymarfer datblygiadol.
- Ymweliadau adolygu â'r darparwr arweiniol, ei golegau partner, ac, oherwydd nodweddion penodol Prentisiaethau Gradd, â phrentisiaid a chyflogwyr yn eu gweithleoedd. Gallai'r ymweliadau adolygu fod yn ymweliadau personol, cyfarfodydd ar-lein, telegynadleddau neu gymysgedd o'r rhain, yn dibynnu ar agweddau ymarferol trefnu ymweliadau a chyfarfodydd, ac ar y cyfarwyddyd a'r ddeddfwriaeth sydd yn eu lle i gadw'n ddiogel rhag COVID-19 ar adeg yr ymgysylltiad. Mae QAA yn cydnabod bod angen i'r dull o weithredu ymweliadau, yn ogystal â chyfarfodydd unigol, fod yn hyblyg er mwyn ystyried argaeledd y cyfranogwyr ac felly gallent ddefnyddio cyfuniad o wahanol fathau o ymgysylltiadau fel bod modd gweithredu'r adolygiad yn y ffordd fwyaf effeithlon bosib.
- Bydd hyd a dull rhyngweithio'r ymweliad adolygu'n gymesur â maint a chymhlethdod y ddarpariaeth. Bydd wedi'i benderfynu gan nifer a maint y rhaglenni, proffil y cyflogwr a'r nifer o brentisiaid cyflogedig. I hysbysu'r detholiad hwn, bydd gofyn i bob darparwr arweiniol gyflwyno data am ei ddarpariaeth yn rhan o'i gyflwyniad. Yn ddibynnol ar y data a gyflwynir, bydd hyd y broses adolygu gyfan yn amrywio rhwng undydd a deuddydd. Lle mae darparwyr ar gamau cynnar yn eu gwaith o ddatblygu a darparu eu darpariaeth, cynhelir yr ymgysylltiadau ar ffurf adolygiad pen desg.

- Anfonir adroddiad drafft at y darparwr arweiniol i dderbyn sylwadau am ei gywirdeb ffeithiol. Bydd yn cynnwys argymhellion i'r darparwyr arweiniol ynglŷn â sut y gallent wella'r rheolaeth ar eu darpariaeth Prentisiaeth Gradd, a bydd yn pennu arferion da lle mae agweddau o'r rheolaeth ar y ddarpariaeth yn gwneud cyfraniad arbennig o bositif i brofiad y myfyrwyr.
- Ni fydd yr adroddiad terfynol wedi'i gyhoeddi ond bydd wedi'i rannu gyda CCAUC a'r darparwr arweiniol. Disgwylir y bydd darparwyr arweiniol yn rhannu'r adroddiad gyda'u partneriaid.
- Bydd CCAUC yn cyhoeddi adroddiad trosolwg sy'n tynnu adroddiadau'r adolygiadau unigol ynghyd a bydd hwn yn cael ei ddefnyddio i hysbysu'r gwerthusiad a wneir gan Lywodraeth Cymru.

Pwyntiau cyfeirio allanol

11 Y prif bwynt cyfeirio sydd i gael ei ddefnyddio yn yr adolygiad hwn yw'r Datganiad o Nodweddion ar gyfer Addysg Uwch mewn Prentisiaethau a gyhoeddir gan QAA.⁴ Mae'r Datganiad o Nodweddion yn disgrifio nodweddion arbennig y cymwysterau yn nhermau eu pwrpas, eu nodweddion cyffredinol a'u canlyniadau generig. Hefyd, mae'r Datganiad o Nodweddion yn ategu'r wybodaeth sydd yn y *Fframweithiau ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch cyrff dyfarnu graddau'r DU (FHEQ)*, ac yn rhoi'r wybodaeth honno yn ei chyd-destun. Trwy hynny mae'n darparu rhagor o fanylion am nodweddion arbennig y cymwysterau hyn ar lefelau penodol ac, felly, dylid darllen y datganiad hwn ochr yn ochr â'r Fframweithiau hyn.

12 Mae'r adolygiad hwn yng Nghymru'n ymwneud â Phrentisiaethau Gradd sydd wedi'u lleoli ar lefel 6 yn y FHEQ, ac sy'n gyfatebol â graddau baglor.

Darpariaeth gyfrwng Gymraeg

13 Bydd yr adolygiad yn edrych ar y ffordd y cafodd yr iaith Gymraeg ei hystyried wrth ddarparu rhaglenni Prentisiaeth Gradd a sut mae'n ateb anghenion y prentisiaid a'r cyflogwyr lle mae'n briodol ac yn bosibl gwneud hynny ar gyfer eu harbenigedd hwy.

14 Mae Prentisiaethau Gradd yn darparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac mae'n rhaid i'r iaith Gymraeg gael ei thrin yr un mor ffafriol â'r iaith Saesneg, yn unol â'r Safonau Iaith Gymraeg. Bydd yr adolygiad yn ystyried y trefniadau sydd gan y darparwr ar gyfer darparu rhaglenni a chefnogi prentisiaid drwy gyfrwng y Gymraeg, a gallu'r darparwr arweiniol a'i bartneriaid i ateb yr anghenion o ran yr iaith Gymraeg sydd gan y cyflogwyr a'r prentisiaid. Bydd yr adolygiadau hefyd yn ystyried sut y gall prentisiaid Cymraeg gynnal a datblygu eu hiaith Gymraeg yn y gweithle.

Trosolwg o'r meysydd allweddol sydd dan sylw yn yr adroddiad

15 Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar y meysydd allweddol yng nghynllun, strwythur a darpariaeth y Prentisiaethau Gradd sydd wedi'u disgrifio yn y Datganiad o Nodweddion ar gyfer Addysg Uwch mewn Prentisiaethau.⁵ Bydd yr adolygiad yn ystyried sut y cefnogir nodweddion arbennig Prentisiaethau Gradd drwy'r pum maes allweddol hyn. Mae materion sydd i dderbyn ystyriaeth ymhob maes allweddol wedi'u crynhoi isod er budd y darparwyr a'r adolygwyr, ac maent yn cynnwys nodweddion penodol darparu Prentisiaethau Gradd yng Nghymru. Nod y pwyntiau isod yw gweithredu fel canllawiau ac ni fwriedir iddynt fod yn grynodedd rhagnodol neu ddiffiniol o'r meysydd sydd o dan ystyriaeth ar gyfer pob maes allweddol.

⁴ www.qaa.ac.uk/cy/y-cod-ansawdd/adnodau-ategol

⁵ Mae QAA wedi cyhoeddi rhagor o ganllawiau mewn perthynas ag ansawdd a safonau prentisiaethau sy'n cynnwys addysg uwch. Mae'r canllaw *Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch mewn Prentisiaethau – Y Dulliau Cyfredol* (yr ail argraffiad, 2018) ar gael ar: www.qaa.ac.uk/cy/y-cod-ansawdd/adnodau-ategol

Maes allweddol un: Cynllunio a datblygu rhaglenni

16 Bydd y tîm adolygu'n gwerthuso a yw'r rhaglenni wedi'u cynllunio i ddarparu nodweddion diffiniol ac arbennig y brentisiaeth addysg uwch ac i ba raddau y maent wedi'u cynllunio i wneud hynny. Dyma'r materion sydd i dderbyn ystyriaeth wrth werthuso'r maes allweddol hwn:

- i ba raddau y mae cynllun y rhaglenni wedi bodloni gofynion y Safon Brentisiaeth berthnasol neu'r Fframwaith Prentisiaeth perthnasol, a gofynion eraill lle bo'n angenrheidiol, er enghraifft, gofynion cyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio
- i ba raddau y mae cynllun y rhaglenni wedi rhoi ystyriaeth i bwyntiau cyfeirio ar gyfer asesu ansawdd rhaglenni, yn cynnwys gofynion y Cod Ansawdd a'r Fframweithiau Cymwysterau, yn ogystal ag arweiniad arall megis Datganiadau Meincnodi Pwnc a'r Datganiadau o Nodweddion
- aliniad â phwyntiau cyfeirio sy'n benodol berthnasol i ddarparwyr yng Nghymru megis Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru a gofynion yr iaith Gymraeg
- cynllun a chynnwys y cwricwla, gan gynnwys integreiddio dysgu yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith, gwybodaeth bynciol, a'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiad sy'n ofynnol yn y proffesiwn neu'r alwedigaeth
- y ffyrdd y mae cyflogwyr a chyrff proffesiynol a chyrff sector yn cyfranogi er mwyn sicrhau bod y rhaglenni'n ateb anghenion datblygiad, arferion a threfniadau gweithio eu gweithluoedd penodol
- y ffordd y mae cynllun y rhaglenni'n galluogi i brentisiaid ddatblygu eu rolau a symud ymlaen yn eu gwaith, gan gynnwys llwybrau cynnydd a chyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus
- y defnydd a wneir o gytundebau ffurfiol neu ddatganiadau ymrwymiad rhwng cyflogwyr, darparwyr a myfyrwyr i sicrhau y darperir y rhaglen a nodweddion arbennig y cymhwyster i safon uchel
- y ffordd y mae trefniadau recriwtio a derbyn yn galluogi i'r broses gael ei gyrru gan gyflogwyr, gan fodloni gofynion mynediad y darparwr.

Maes allweddol dau: Dulliau darparu

17 Gall Prentisiaethau Gradd ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau darparu. Bydd hyn yn dibynnu ar ystod eang o ffactorau megis y dull addysgol, gofynion y cyflogwr a'r prentis, y brentisiaeth unigol, gofynion y cyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio a'r gofynion o ran addasrwydd i arfer. Dyma'r materion sydd i dderbyn ystyriaeth wrth werthuso'r maes allweddol hwn:

- i ba raddau y mae'r dull o ddarparu'r rhaglen yn alinio'r dysgu i ffwrdd o'r gwaith gyda'r gweithgareddau gweithio o ddydd i ddydd er mwyn rhoi'r cyfleoedd dysgu gorau i'r prentisiaid
- y ffordd y mae cyflogwyr yn cymryd rhan yn y broses o benderfynu'r dull o ddarparu a sut ac ymhle y bydd y prentis yn gwneud ei ddysgu, gan gynnwys unrhyw gytundebau ffurfiol rhwng cyflogwyr a'r darparwr a'u cyfrifoldebau perthnasol am y safonau
- pa mor effeithiol yw'r trefniadau rhwng y cyflogwyr a'r darparwyr ar gyfer cynllunio a chydlynu'r dysgu sydd wedi'i integreiddio yn y gwaith
- y ffordd y mae arferion darparu'n hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiad yn y gweithle
- trefniadau ar gyfer darparu drwy gyfrwng y Gymraeg cyn belled ag y mae'r pwnc arbenigol/sgiliau'n ei ganiatáu
- y trefniadau a'r cyfrifoldebau am sicrhau ansawdd a safonau pob agwedd o ddysgu, beth bynnag fo'r dull o ddysgu a lleoliad y dysgu.

Maes allweddol tri: Dysgu ac addysgu

18 Bydd amrywiaeth o ddulliau arloesol o ddysgu ac addysgu'n cael eu darparu er mwyn cefnogi anghenion amrywiol y dysgwyr a'u sefyllfaoedd unigol yn eu gweithleoedd. Dyma'r materion sydd i dderbyn ystyriaeth wrth werthuso'r maes allweddol hwn:

- pa mor briodol yw'r ystod o ddulliau dysgu ac addysgu ar y rhaglen i amrywiol anghenion y dysgwyr a'u sefyllfaoedd unigol yn eu gweithleoedd
- lle bo'n briodol, y ffordd y mae'r cyflogwr yn cymryd rhan yn y gwaith o gynllunio'r broses asesu a/neu gytuno ar ei manylion
- a oes cytundeb eglur am gyfrifoldebau bob parti sy'n cymryd rhan yn y gwaith o ddysgu, addysgu a galluogi cyflawniad y myfyriwr
- a neilltuir amser priodol i sicrhau bod y cyfleoedd dysgu seiliedig ar waith o safon uchel
- y ffordd y mae trefniadau ar gyfer dysgu hunangyfeiriedig a myfyrio'n cael eu cefnogi drwy fecanweithiau megis cytundebau dysgu a chynlluniau dysgu a datblygu personol
- y ffordd y defnyddir contractau dysgu neu gytundebau cyfatebol i gefnogi integreiddiad dysgu yn y gwaith ac i fwrdd o'r gwaith, yn ogystal â darparu dysgu ac asesu seiliedig ar waith
- y ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg sydd ar gael i'r myfyrrwyr
- y ffyrdd y mae'r darparwyr yn rheoli, yn cofnodi ac yn monitro cynnydd a chyflawniad eu dysgwyr ar draws bob dull darparu a phob safle darparu, yn cynnwys unrhyw addasiadau i'r ddarpariaeth.

Maes allweddol pedwar: Cefnogi cyflawniad y myfyriwr

19 Bydd angen ystod o ddulliau cefnogi ar brentisiaid drwy gydol eu taith ddysgu – o gofrestru i drosglwyddo i'r gweithle, ac o astudio'r rhaglen i gyflawni'r dyfarniad. Felly, bydd angen rhoi ystyriaeth i angen y prentisiaid am gymorth gan eu cyflogwyr a'u darparwyr addysg uwch. Un o nodweddion arbennig y Brentisiaeth Gradd yw'r rôl/rolau hyfforddi a mentora yn y gweithle sy'n galluogi i'r prentis gael profiad yn y gweithle, sy'n annog dysgu ac sy'n pennu cyfleoedd i ddatblygu'n broffesiynol ac i ddatblygu gyrfa. Dyma'r materion sydd i dderbyn ystyriaeth wrth werthuso'r maes allweddol hwn:

- trefniadau ymsefydlu ar gyfer pob agwedd o'r brentisiaeth fel bod prentisiaid wedi'u paratoi'n briodol
- sut y sicrhau bod modd i'r prentisiaid ddefnyddio'r gwasanaethau cymorth myfyrrwyr i ateb eu hanghenion, gan gynnwys cymorth drwy gyfrwng y Gymraeg lle bo'n briodol
- trefniadau i hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiad yn y gweithle ac i ddileu unrhyw rwystrau diangen i ddysgu ac asesu
- y gefnogaeth a'r arweiniad a ddarperir i hyrwyddo cyfleoedd i'r prentisiaid symud ymlaen yn eu gyrfaedd yn hyblyg a datblygu eu cyflogaeth
- y ffordd y mae darparwyr a chyflogwyr yn cefnogi aelodau o'u staff sy'n addysgu ac yn hwyluso dysgu i dderbyn y cymorth priodol a sicrhau cymwysterau a datblygiad addas
- y prosesau sydd ar waith i gefnogi a datblygu'r aelodau hynny o staff sy'n cymryd rhan mewn hyfforddi prentisiaid, megis mentoriaid a hyfforddwyr, fel bod ganddynt y profiad priodol i gyflawni eu cyfrifoldebau
- sut y mae effeithiolrwydd y prosesau cymorth yn cael ei fonitro a'i asesu er mwyn sicrhau bod y prentisiaid yn gallu cael canlyniadau llwyddiannus ar lefelau academaidd a phroffesiynol.

Maes allweddol pump: Aseu

20 Bydd strategaethau aseu'n adlewyrchu'r math o ddysgu a dysgwyr, a natur pob elfen o raglen ddysgu'r brentisiaeth. Bydd angen amrywiaeth o ddulliau aseu, a gallai hyn gynnwys amrywiaeth o ddulliau ffurfiol ac anffurfiol, a ffurfiannol a chrynodol. Gallai cyflogwr gymryd rhan yn y gwaith o gynllunio'r broses, a/neu gytuno ar ei manylion, ar gyfer aseu a chadarnhau cyflawniad a chymhwysedd proffesiynol y prentis. Dyma'r materion sydd i dderbyn ystyriaeth wrth werthuso'r maes allweddol hwn:

- trefniadau aseu ar gyfer cydnabod dysgu profiadol ac/neu ardystiedig blaenorol er mwyn pennu eithriad a/neu bwyntiau mynediad perthnasol
- y ffordd y mae cynllun y strategaeth aseu'n galluogi i'r prentis ddangos yr wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiad sy'n ofynnol yn ôl y fanyleb gradd berthnasol
- trefniadau i sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ei thrin yr un mor ffafriol â'r iaith Saesneg mewn perthynas â threfnau aseu⁶
- sut mae'r dulliau aseu'n cynnwys cyfleoedd i'r prentisiaid ddefnyddio eu gweithle a'u profiad gwaith go iawn i fodloni'r gofynion aseu
- y ffordd y mae'r arferion aseu'n hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiad yn y gweithle
- pa mor effeithiol yw'r trefniadau presennol am gefnogi asesiadau yn y gweithle, gan gynnwys y datblygiad a'r hyfforddiant sydd ar gael i'r cyflogwyr hynny sy'n cymryd rhan yn y broses aseu
- y ffordd y mae cynnydd a chyflawniad y prentisiaid yn cael eu cofnodi a'u monitro'n rheolaidd i bwrpasau adrodd.

Canlyniadau'r adolygiad

21 Bydd y tîm adolygu'n defnyddio trywyddau rhaglen i werthuso'r ffordd y mae'r darparwr arweiniol yn darparu rhaglenni Prentisiaeth Gradd yn erbyn y Datganiad o Nodweddion ar gyfer Addysg Uwch mewn Prentisiaethau. Bydd y tîm adolygu'n rhoi sylwadau sy'n nodi i ba raddau y mae'r darparwr arweiniol yn sicrhau bod cynllun a darpariaeth ei Brentisiaethau Gradd yn adlewyrchu nodweddion y dyfarniad, gan nodi arferion da a gwneud argymhellion ynglŷn â ffyrdd o wella.

22 Am ei fod yn adolygiad datblygiadol, nid yw timau adolygu'n rhoi beirniadaeth gyffredinol am safonau ac/neu ansawdd darpariaeth y darparwr. Fodd bynnag, os bydd y tîm adolygu'n gweld materion sy'n achosi pryder a allai gyflwyno risg(iau) difrifol i reolaeth y darparwr ar safonau neu ansawdd, yna bydd y tîm adolygu'n cyfeirio'r mater at CCAUC a allai wedyn benderfynu a ddylai ymchwilio'r mater drwy'r Weithdrefn ar gyfer Ansawdd Anfoddfaol.

23 Mewn perthynas â'r adolygiad datblygiadol hwn, mae **arfer da** wedi'i diffinio fel arferion sydd, yng nghyd-destun y darparwr, yn gwneud cyfraniad arbennig o bositif neu arloesol i gefnogi nodweddion arbennig ei ddarpariaeth Prentisiaeth Gradd. O ganlyniad, mae arferion o'r fath yn haeddu eu lledaenu ymhellach. Diben canfod arferion da yw galluogi i'r darparwr arweiniol adeiladu ar ei gryfderau a gwella ei dull o ddarparu ei ddarpariaeth, yn ogystal â chyfrannu at ddatblygu Prentisiaethau Gradd yng Nghymru ymhellach.

24 Mae **argymhellion** yn weithrediadau y dylid ystyried eu gwneud a chânt eu hawgrymu pan fydd y tîm adolygu o'r farn bod angen i'r darparwr arweiniol newid un o'i arferion, polisïau neu brosesau er mwyn sicrhau neu gryfhau'r ffordd y mae'n darparu nodweddion arbennig ei ddarpariaeth Prentisiaeth Gradd. Er na fydd argymhellion wedi'u graddio, bydd y tîm adolygu fel arfer yn nodi pa mor gyflym y dylai'r darparwr ymdrin â'r mater.

⁶ *Canllawiau ar Arfer Effeithiol mewn Arholi ac Aseu drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghymru*, sydd ar gael ar: www.gaa.ac.uk/docs/gaa/about-us/canllawiau-i-ddarparwyr-addysg-uwch-ar-arfer-effeithiol-mewn-arholi-ac-aseu-drwy-gyfrwng-y-gymraeg-yng-nghymru.pdf

25 Bydd canfyddiadau'r tîm adolygu wedi'u crynhoi mewn adroddiad ysgrifenedig heb ei gyhoeddi i'r darparwr arweiniol, a bydd adroddiad trosolwg a gaiff ei gyhoeddi'n cynnwys unrhyw wybodaeth a ddysgir o'r rhaglen adolygu gyfan. Ni fydd esiamplau penodol o arfer da ac argymhellion penodol wedi'u priodoli i ddarparwyr unigol.

Nodweddion y broses adolygu

Y ddogfen hunanwerthusiad

26 *Nodwch na ddylai'r ddogfen hunanwerthusiad fod yn hirach na 8,000 o eiriau ac na ddylai gynnwys mwy na 40 o ddarnau o dystiolaeth ategol, fel canllaw.* Gallai'r ddogfen hunanwerthusiad a'r sail tystiolaeth fod yn llawer byrrach lle mae'r ddarpariaeth yn fach neu o dan ddatblygiad a/neu mae nifer y safleoedd darparu'n fach.

27 Y ddogfen hunanwerthusiad yw'r asesiad a wneir gan y darparwr arweiniol o'i ddarpariaeth Prentisiaeth Gradd. Mae'r data a ddarperir ochr yn ochr â'r ddogfen hunanwerthusiad, megis gwybodaeth gyd-destunol am y darparwr, yn hysbysu'r penderfyniad am ddethol trywyddau rhaglen ac yn hysbysu'r cynlluniau a'r trefniadau ar gyfer yr ymweliad adolygu. Y ddogfen hunanwerthusiad yw'r man cychwyn i'r adolygwr ddod i ddeall y ffordd y mae'r darparwr arweiniol yn rheoli ei ddarpariaeth. Dylai'r ddogfen hon gynnwys, cyn belled ag y bo'n bosibl, bortffolio o ddogfennau sy'n bodoli'n barod ynghyd â sylwadau sy'n gwerthuso'r meysydd allweddol dan sylw. Dylai roi gwerthusiad o ddull y darparwr o reoli Prentisiaethau Gradd fel portffolio o ddarpariaeth, a rhoi esiamplau penodol a chyd-destunol o'i ddull (er y bydd hyn yn cynnwys esiamplau ar gyfer y trywyddau rhaglen arfaethedig, ni ddylai hyn eithrio esiamplau o raglenni eraill).

28 Dylai'r ddogfen hunanwerthusiad gyfeirio'r dystiolaeth sydd yn y dogfennau a'i rhoi yn ei chyd-destun ar gyfer yr adolygwyr. Y prif ofynion ar gyfer dogfen hunanwerthusiad yw ei bod yn werthusol, nid yn ddisgrifiadol yn unig, a'i bod yn darparu tystiolaeth ddogfennol ddigonol i gefnogi ei honiadau. Dylai'r ddogfen weithredu fel canllaw i'r adolygwyr i'r adrannau perthnasol yn y dystiolaeth bresennol. Tasg yr adolygwyr yw profi a gwirio'r honiadau a wneir yn erbyn y dystiolaeth a nodir.

29 Bydd pob adolygiad yn canolbwyntio ar reolaeth y darparwr arweiniol ar ei raglenni Prentisiaeth Gradd a rolau colegau addysg bellach, darparwyr hyfforddiant a phartneriaid eraill (os byddent yn berthnasol) a chyflogwyr. Dylai'r ddogfen hunanwerthusiad ymwneud â chyfanrwydd y ddarpariaeth ar bob safle darparu, yn cynnwys amrywiol ddulliau mynychu a chyfraniadau gwahanol gyflogwyr. Dylid cyflwyno'r ddogfen hunanwerthusiad i QAA heb fod yn hwyrach na **chwe wythnos** cyn yr ymweliad adolygu.

30 Dylai'r ddogfen hunanwerthusiad gynnwys y canlynol:

- Datganiad cyflwyniadol byr am ddarpariaeth y darparwr arweiniol, ei drefniadau partneriaeth a'i gyfrifoldebau.
- Y cyd-destun y mae'r rhaglenni Prentisiaeth Gradd wedi'u datblygu ynddo, gan gynnwys y rhesymau am ddatblygu'r ddarpariaeth benodol, a chyfranogaeth cyflogwyr a sefydliadau sy'n ymwneud â'r cyflogwyr.
- Data a sylwadau am gofrestrriad, cadwraeth a chyfraddau cwblhau, prentisiaid sy'n dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad, statws cyflogedig y prentisiaid, proffil y cyflogwr, a'r nifer o brentisiaid fesul cyflogwr. Pwrpas y data fydd helpu i ddeall nodweddion y corff myfyrwyr a'i anghenion am gymorth, a rhoi'r trywyddau rhaglen a'r detholiad o ymweliadau â chyflogwyr yn eu cyd-destun.
- Y strwythurau rheoli a'r personél perthnasol, yn cynnwys y fframweithiau ansawdd a threfniadol y mae'r ddarpariaeth Prentisiaeth Gradd yn gweithredu oddi mewn iddynt.

- Disgrifiad o'r gweithdrefnau ar gyfer sicrhau a gwella ansawdd sy'n berthnasol i Brentisiaethau Gradd.
- Copïau o gytundebau a chontractau megis cytundebau partneriaeth, cytundebau rhwng y cyflogwr, y prentis a'r darparwr addysg uwch, a chontractau dysgu.
- Gwybodaeth am y trywydd(au) rhaglen arfaethedig, gan gynnwys rhesymeg dros ddethol y rhaglenni (gwelwch baragraff 53).
- Gwerthusiad cryno o'r holl ddarpariaeth Prentisiaeth Gradd o dan bob maes allweddol, wedi'u croesgyfeirio â'r dystiolaeth ddogfennol a gyda ffocws arbennig ar y trywyddau rhaglen. Dylai werthuso pa mor bell mae cynllun a darpariaeth ei raglenni astudio'n cyfateb â nodweddion diffiniol prentisiaethau addysg uwch. Gallai fod yn ddefnyddiol strwythuro'r gwerthusiad yn unol â fframweithiau Prentisiaeth Gradd ac yna gyfeirio'n benodol at y trywydd rhaglen benodol. Pan fydd gan y darparwr drywydd rhaglen ar gyfer pob un o'r fframweithiau prentisiaeth, dylid cyfeirio at y ddau drywydd rhaglen.
- Dogfennau diffiniol pob rhaglen ar gyfer y trywyddau rhaglen arfaethedig megis yr adroddiad dilysu, manylebau'r rhaglen, disgrifwyr/canllawiau'r modiwlau a llawlyfr y rhaglen.
- Er y byddai'n ddefnyddiol gallu defnyddio deunyddiau o'r trywyddau rhaglen arfaethedig wrth werthuso'r ddarpariaeth, dylai'r sail tystiolaeth amcanu i fod yn gytbwys yn nhermau darpariaeth gyfan y darparwr.

Cyfranogaeth y myfyrwyr

31 Yn yr un ffordd ag y mae myfyrwyr yn ganolog i brosesau adolygu QAA, ar gyfer yr adolygiad datblygiadol hwn, bydd y myfyrwyr yn cyfrannu at y broses drwy gyflwyniad myfyrwyr a Phrif Gynrychiolydd Myfyrwyr. Yn ogystal, bydd cyfleoedd i'r myfyrwyr sy'n brentisiaid ymateb i holiadur a chwrdd ag adolygwyr ar safle eu darparwr ac yn eu gweithle. Bydd QAA yn anfon yr holiadur at ddarparwyr arweiniol i'w ddsbarthu i'w myfyrwyr dair wythnos cyn i'r ddogfen hunanwerthusiad a chyflwyniad y myfyrwyr gael eu diweddarau. Bydd QAA yn gofyn am ddychwelyd yr holiaduron hyn yn uniongyrchol i QAA erbyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r ddogfen hunanwerthusiad.

Cyflwyniad y myfyrwyr

32 Mae corff cynrychioli'r myfyrwyr – sef Undeb y Myfyrwyr (neu gyfatebol) y darparwr arweiniol fel arfer – yn cael cyfle i wneud cyflwyniad i'r tîm adolygu cyn yr ymweliad adolygu. Dylid gwneud hynny mewn ymgynghoriad â'r myfyrwyr sy'n astudio ar raglenni Prentisiaeth Gradd, a dylai gynnwys myfyrwyr mewn sefydliadau partner, fel y bo'n berthnasol. Er bod cyflwyniad y myfyrwyr fel arfer yn ddogfen ysgrifenedig, mae croeso i ffurfiau eraill. Mae rhagor o arweiniad am hyn ar gael gan QAA.⁷ Mae cyflwyniad y myfyrwyr yn ddogfen werthfawr i'r tîm adolygu am ei bod yn rhoi cipolwg iddo ar natur profiad y myfyrwr a pha mor effeithiol yw rheolaeth y darparwr arweiniol a'i bartneriaid ar ansawdd profiad eu myfyrwyr.

33 Dylid cyflwyno cyflwyniad y myfyrwyr, os darperir un, ar yr un pryd â dogfen hunanwerthusiad y darparwr, lle bo'n bosibl. Bydd yr Hwylusydd a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yn derbyn cadarnhad o'r dyddiad cyflwyno yn rhan o amserlen yr adolygiad. I gael rhagor o fanylion a gwybodaeth am gyflwyniad y myfyrwyr, gwelwch Atodiad C.

⁷ Arweiniad am Gyflwyniadau Amgen gan Fyfrwyr yn Adolygiadau QAA, sydd ar gael ar:

www.qaa.ac.uk/docs/qaa/guidance/canllawiau-ar-gyflwyniadau-amgen-qan-fyfrwyr-mewn-adolygiadau-asa.pdf

Y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr

34 Gallai'r darparwr arweiniol a'i Undeb Myfyrwyr gytuno i benodi **Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr**. Rôl y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yw annog cyfranogaeth myfyrwyr yn yr adolygiad a rhoi pob gwybodaeth iddynt am ei gynnydd. Gallai'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr gymryd rhan yn y gwaith o baratoi cyflwyniad y myfyrwyr. Mae'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yn gweithio'n agos â'r Hwylusydd i sicrhau cyfathrebu esmwyth rhwng y corff myfyrwyr a'r darparwr. Efallai y gallai'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr weithio'n agos â phrentisiaid yn y gweithle. Os nad oes corff cynrychioli myfyrwyr, dylai'r darparwr chwilio am wirfoddolwr o'r corff myfyrwyr ehangach.

35 Lle bo'n bosibl, dylai'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr gael ei benodi gan y myfyrwyr eu hunain, gyda chymorth corff cynrychioli myfyrwyr neu gorff cyfatebol o fewn y darparwr. Mae QAA yn gofyn i'r Hwylusydd weithio gyda chynrychiolwyr y myfyrwyr i benderfynu pwy ddylai gymryd y rôl. Gallai'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr fod yn aelod o gorff cynrychioli'r myfyrwyr, ond ni ddylai fod yn aelod o'r staff.

36 Dylai'r darparwr gynnig cymaint o gymorth gweithredol a logistaidd ag sy'n bosibl i'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr. Yn arbennig, dylai darparwyr rannu gwybodaeth neu ddata perthnasol i sicrhau bod sail ddigonol o wybodaeth a thystiolaeth ar gael ar gyfer cyflawniad y myfyrwyr.

37 Mae QAA yn rhagweld y bydd y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr fel arfer yn:

- derbyn copïau o ohebiaeth allweddol gan QAA
- dosbarthu gwybodaeth i'r corff myfyrwyr am yr adolygiad a rhoi adborth am y broses adolygu a'i chynnydd i'r corff myfyrwyr
- trefnu neu oruchwylio cyflwyniad y myfyrwyr
- cysylltu'n fewnol gyda'r Hwylusydd i sicrhau cyfathrebu esmwyth rhwng y corff myfyrwyr a'r darparwr arweiniol yn ystod y broses
- helpu'r tîm adolygu i ddewis myfyrwyr i gwrdd â nhw
- mynd i gyfarfodydd yr adolygwyr gyda myfyrwyr yn ystod yr adolygiad
- mynd i'r gyfarfod terfynol ar safle'r darparwr arweiniol
- hwyluso sylwadau gan y corff myfyrwyr ar adroddiad drafft.

38 Mae QAA yn cydnabod nad yw pob darparwr arweiniol, coleg, undeb myfyrwyr a chynrychiolydd myfyrwyr efallai'n teimlo ei bod hi'n briodol nac yn gynaliadwy darparu'r lefel o ymgysylltiad a ragwelir ar gyfer y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr. Felly, bydd QAA yn hyblyg ynglŷn â faint o amser y gall y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr ei ddarparu, a gall ystyried trefniadau eraill ar gyfer sicrhau cyfranogaeth briodol y myfyrwyr.

Ymgysylltu â phrentisiaid

39 Bydd yr adolygwyr yn cwrdd â'r myfyrwyr sy'n brentisiaid yn eu gweithleoedd er mwyn deall eu profiad yn y gweithle fel eu prif ffynhonnell ddysgu. Am mai dim ond sampl o weithleoedd y gall adolygwyr ymweld â nhw, bydd prentisiaid yn derbyn gwahoddiad i gwblhau arolwg a fydd yn helpu i hysbysu gwaith yr adolygwyr o baratoi ar gyfer yr ymgysylltiadau adolygu.

Y tîm adolygu

Yr adolygwyr

40 Bydd QAA yn penodi tîm o ddau **adolygwr** sydd ag arbenigedd sy'n berthnasol i Brentisiaethau Gradd i wneud adolygiad o bob darparwr arweiniol. Bydd y tîm adolygu wedi'i gefnogi gan **Swyddog QAA**. Prif gyfrifoldebau'r adolygwyr yw darllen, dadansoddi a gwirio'r wybodaeth a gyflwynir gan y darparwr arweiniol a'r corff myfyrwyr, a chasglu pa dystiolaeth bellach bynnag y maent yn ei hystyried yn angenrheidiol, drwy ymgysylltiadau â'r darparwr arweiniol, partneriaid, cyflogwyr a phrentisiaid, ac yna ddefnyddio'r dystiolaeth hon ac ymgysylltiad i bennu canlyniadau'r adolygiad.

41 Yn gyffredinol, caiff adolygwyr eu penodi gan QAA o enwebiadau a wneir gan sefydliadau sy'n darparu rhaglenni addysg uwch. Cyn gwneud adolygiadau, mae QAA yn darparu hyfforddiant i bob adolygwr a phob Swyddog QAA, sy'n cynnwys dull a chyd-destun arbennig yr adolygiad. Bydd darparwyr arweiniol yn clywed pwy yw aelodau'r tîm adolygu o leiaf naw wythnos, yn fras, cyn yr adolygiad, a bydd gofyn iddynt gadarnhau a oes unrhyw wrthdaro buddiannau mewn perthynas â darpar aelodau'r tîm cyn cadarnhau aelodaeth y tîm.

42 Bydd y tîm adolygu'n gweithredu ar y cyd fel tîm yn ystod eu hymgysylltiadau drwy gyfrwng y darparwr arweiniol. Fodd bynnag, efallai y bydd ymgysylltiadau â chyflogwyr a phrentisiaid yn eu lleoliad dysgu seiliedig ar waith yn digwydd ar sail unigol er mwyn rhoi cyfle i'r adolygwyr samplu nifer fwy o leoliadau gwaith.

Y Swyddog QAA

43 Mae QAA yn penodi Swyddog i gydlynu a rheoli pob adolygiad. Bydd y Swyddog yn aelod penodol o staff QAA. Fel arfer, bydd y Swyddog yn cefnogi'r broses adolygu gyfan, o'r cyfarfod paratoadol i gwblhau'r adroddiad adolygu. Mae'r Swyddog yn gyfrifol am sefydlu perthynas waith agos ac adeiladol gyda'r darparwr.

44 Bydd y Swyddog QAA yn bresennol, ar y cyd â'r tîm adolygu, drwy gydol yr ymgysylltiadau adolygu, ond ni fydd yn cyfarwyddo ystyriaethau'r tîm, nac yn dylanwadu ar ei gasgliadau a'i ganfyddiadau. Prif rôl y Swyddog QAA yw sicrhau bod y broses adolygu'n cael ei gweithredu yn unol â'r llawlyfr dull, a bod casgliadau'r tîm adolygu'n gadarn a'u bod wedi'u seilio ar ddigon o dystiolaeth dda.

45 Dyma ddyletswyddau penodol y Swyddog QAA:

- cysylltu gyda'r darparwr arweiniol ynghylch y gwaith cynllunio ar gyfer yr adolygiad
- hwyluso cyfathrebu rhwng yr Hwylusydd, y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr a'r tîm adolygu
- rheoli trefniadau logistaidd
- cadeirio cyfarfodydd y tîm adolygu
- golygu'r adroddiad adolygu a chydlynu ei gynhyrchiad.

Yr Hwylusydd

46 Gwahoddir darparwyr i enwebu aelod o'u staff i hwyluso'r gwaith adolygu drwy gysylltu'n agos â'r Swyddog QAA i sicrhau bod y broses adolygu'n drefnus ac yn rhedeg yn esmwyth. Bydd yr Hwylusydd yn gweithio'n agos ac yn gefnogol â'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr i sicrhau bod y corff myfyrwyr wedi'i hysbysu, ac yn deall, sut mae'r adolygiad yn dod yn ei flaen. Bydd yr Hwylusydd yn gweithio'n agos â chyflogwyr hefyd i sicrhau eu bod yn deall beth yw pwrpas yr ymweliadau â'r gweithleoedd, a'r trefniadau ar eu cyfer. Bydd gan yr Hwylusydd y cyfrifoldeb o ddydd i ddydd am y trefniadau ar gyfer yr adolygiad ac am sicrhau bod y dystiolaeth ar gael i'r tîm. Gallai'r Hwylusydd arwain y gwaith o baratoi'r ddogfen hunanwerthusiad.

47 Caniateir i'r Hwylusydd arsyllu unrhyw rai o'r cyfarfodydd rhwng y tîm a'r darparwr, a rhwng y tîm a chyflogwyr, heblaw'r rheiny gyda myfyrwyr/prentisiaid. Pan fydd yr Hwylusydd yn arsyllu cyfarfod, ni ddylai gymryd rhan mewn trafodaethau heblaw bod y tîm adolygu'n ei (g)wahodd i wneud hynny.

48 Yn ystod ymgysylltiadau adolygu, disgwylir i'r Hwylusydd:

- roi cyngor a chyfarwyddyd i'r tîm adolygu am strwythurau, polisïau, blaenoriaethau a gweithdrefnau'r darparwr, a sefydlu cysylltiadau â chyflogwyr
- gwrdd â'r Swyddog QAA a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr, ac efallai aelodau'r tîm adolygu, y tu allan i'r cyfarfodydd ffurfiol i ddarparu neu geisio rhagor o eglurhad am faterion neu gwestiynau penodol
- helpu i gyfeirio'r adolygwyr at wybodaeth neu ganfod yr wybodaeth y maent yn chwilio amdani er mwyn helpu i wneud y broses mor effeithiol o ran amser ag sy'n bosibl.

49 Mae'r Hwylusydd yn helpu i ddarparu rhyngweithio adeiladol rhwng holl gyfranogwyr y broses adolygu. Mae hyn yn hybu perthynas waith effeithiol drwy gyfeirio'r adolygwyr at wybodaeth neu drwy gael gafael ar wybodaeth mewn ffordd mor effeithlon ag sy'n bosibl er mwyn sicrhau eglurder ac effeithiolrwydd yn y broses adolygu. Lle bo'n briodol, ac mewn cytundeb â'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr, gallai'r Hwylusydd hefyd roi arweiniad a chefnogaeth i gynrychiolwyr y myfyrwyr wrth baratoi cyflwyniad y myfyrwyr ac ar gyfer cyfarfodydd gyda'r tîm adolygu.

Y sesiwn briffio i'r darparwr

50 Pwrpas y sesiwn briffio i'r darparwr yw disgrifio'r adolygiad yn fwy manwl, caniatáu i'r darparwr arweiniol a'u partneriaid ofyn cwestiynau am y dull, a rhoi rhagor o gyngor ac arweiniad ynglŷn â sut i baratoi ar gyfer yr adolygiad, i baratoi hunanwerthusiad ac i helpu myfyrwyr i baratoi cyflwyniad ysgrifenedig. Mae'r sesiwn briffio hefyd yn cynnig cyfle i ddarparwr arweiniol a'u partneriaid siarad â'i gilydd am eu gwaith paratoi ar gyfer yr adolygiad. Cynhelir y sesiwn briffio i'r darparwr ar ffurf gweminar.

Trywyddau rhaglen

51 Mae 'trywydd rhaglen' yn rhaglen Brentisiaeth Gradd a ddetholir o ddarpariaeth y darparwr ar gyfer pob fframwaith Prentisiaeth Gradd. Caiff ei ddefnyddio i olrhain y ffordd y mae prosesau ac arferion y darparwr yn gweithredu ar lefel leol. Yn dibynnu ar gwmpas y ddarpariaeth y mae'r darparwr wedi'i datblygu mewn perthynas â fframweithiau Prentisiaeth Gradd, gellir cael un neu ddau drywydd rhaglen ar gyfer adolygiad pob darparwr.

52 Defnyddir trywyddau rhaglen i werthuso pa mor effeithiol yw prosesau'r darparwr o ran datblygu a darparu nodweddion prentisiaethau addysg uwch ar gyfer eu ddarpariaeth Prentisiaeth Gradd. Mae trywyddau rhaglen yn galluogi i'r tîm adolygu werthuso pa mor effeithiol yw rheolaeth y darparwr ar ei ddarpariaeth yn y cyswllt hwn, ar lefel pob rhaglen ac hefyd mewn perthynas â ddarpariaeth Prentisiaeth Gradd y darparwr. Mae trywyddau rhaglen yn cyfrannu at y trosolwg a roddir o ddatblygiad y rhaglenni mewn perthynas â fframweithiau Prentisiaeth Gradd, yn ogystal â'r ddarpariaeth Prentisiaeth Gradd gyfan.

53 Yn rhan o'u cyflwyniad, dylai'r darparwr arweiniol gynnig un rhaglen i bob fframwaith Prentisiaeth Gradd sydd i gael ei defnyddio fel trywydd. Er mwyn galluogi i'r tîm adolygu benderfynu a fydd y trywydd(au) rhaglen arfaethedig yn darparu digon o gyfleoedd i werthuso'r meysydd allweddol sydd dan sylw yn yr adroddiad, dylai'r ddogfen hunanwerthusiad gynnwys yr wybodaeth a ganlyn:

- pa mor gynrychiadol yw'r trywydd rhaglen arfaethedig yn nhermau darpariaeth gyffredinol y darparwyr yn y fframwaith Prentisiaeth Gradd, y mathau o drefniadau a'r mathau o gyflogwyr
- a oes digon o gyfleoedd i ymweld â chyflogwyr i alluogi i sampl gynrychiadol o gyflogwyr a phrentisiaid gyfranogi
- a oes cyfleoedd i samplu cyflogwyr/prentisiaid ar wahanol gamau yn natblygiad darpariaeth y darparwr
- a oes cyfleoedd i gwrdd â phrentisiaid sy'n gyflogeion cyfredol, yn ogystal â rhai sydd newydd eu cyflogi, ac sydd ar wahanol lefelau astudio.

Dylai'r darparwr arweiniol ddefnyddio'r adroddiad data i gefnogi ei gynigion, a dylai roi digon o gyd-destun i ddethol trywyddau amgen os bydd y tîm adolygu'n barnu bod angen gwneud hynny.

54 Ar sail ei gyfarfod a'i waith dadansoddi, bydd y tîm adolygu'n penderfynu a fydd y trywyddau arfaethedig yn darparu digon o gyfleoedd i werthuso'r meysydd allweddol dan sylw. Bydd y penderfyniad hwn wedi'i gadarnhau erbyn pedair wythnos cyn yr ymweliad adolygu. Os bydd y tîm adolygu'n penderfynu y byddai trywydd(au) rhaglen amgen yn fwy addas i ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer y meysydd allweddol dan sylw, rhoddir gwybod am hyn i'r darparwr arweiniol ar y pwynt hwn.

55 Unwaith y bydd y trywyddau rhaglen wedi'u cadarnhau, bydd y Swyddog QAA yn mynd ati gyda'r darparwr arweiniol i drafod ffactorau sydd i gael eu hystyried wrth ddethol y cyflogwyr sydd i dderbyn ymweliad, megis hygyrchedd y safleoedd, y staff a'r prentisiaid sydd ar gael i'r tîm, a'r amserlenni a'r trefniadau ar gyfer ymweliadau/cyfarfodydd ar y safleoedd.

56 Yn rhan o'r sail tystiolaeth sy'n ategu'r ddogfen hunanwerthusiad, gofynnir i'r darparwr ddarparu dogfennau diffiniol pob rhaglen ar gyfer y trywydd(au) rhaglen arfaethedig, megis yr adroddiad dilysu, manylebau'r rhaglen, disgrifwyr/canllawiau'r modiwlau a llawlyfr y rhaglen.

Gweithgareddau yn ystod yr adolygiad

57 Bydd patrwm yr adolygiad yn ddigon hyblyg i ymateb i natur y rhaglenni dan adolygiad. Er y bydd y rhan fwyaf o'r gweithgareddau'n gyffredin i'r holl adolygiadau, bydd amserlen y gweithgareddau'n adlewyrchu trefniadau arbennig pob darparwr arweiniol a'u partneriaid a'r cyflogwyr. Mewn rhai achosion efallai y bydd raid i'r tîm adolygu wahanu i wneud gwahanol weithgareddau.

58 Bydd pob ymweliad adolygu'n cynnwys:

- cyfarfod cychwynnol rhwng yr adolygwyr a'r staff sy'n gyfrifol am reoli rhaglenni Prentisiaeth Gradd a sicrhau eu hansawdd
- cyfarfod gyda'r staff addysgu a'r staff cymorth ar gyfer rhaglenni Prentisiaeth Gradd
- cyfarfod gyda grŵp cynrychiadol o fyfyrwyr cyfredol y darparwr
- cyfarfod gyda staff mewn colegau partner i archwilio eu cyfranogaeth yn y gwaith o ddatblygu a darparu Prentisiaethau Gradd
- ymweliadau â'r gweithleoedd i gyfarfod â chyflogwyr unigol a'u prentisiaid (gwelwch baragraffau 61 i 65)
- cyfarfod terfynol y tîm gyda'r darparwr arweiniol.

Cyfranogaeth cyflogwyr

59 Mae rôl y cyflogwyr yn y dyfarniadau hyn yn bwysig, ac mae'r cyflogwyr yn chwarae rhan arwyddocaol yn y broses adolygu. Bydd gwahoddiad i gyflogwyr gyfrannu at yr adolygiad drwy gwblhau holiadur a derbyn ymweliad gan y tîm adolygu. Bydd adolygwyr eisiau dysgu am fanteision a heriau'r dysgu seiliedig ar waith a dysgu cysylltiedig â gwaith, a byddent yn gwneud ymweliadau â nifer o weithleoedd yn rhan o'r trywydd(au) rhaglen. Bydd nifer a natur yr ymweliadau wedi'u dylanwadu gan nodweddion y rhaglen.

Arolwg o gyflogwyr

60 Er mwyn sicrhau mewnbwn ehangach gan gyflogwyr i'r adolygiad, bydd QAA yn anfon holiadur at ddarparwyr arweiniol i'w ddsbarthu i gyflogwyr dair wythnos cyn i'r ddogfen hunanwerthusiad gael ei diweddarau. Bydd QAA yn gofyn am ddychwelyd yr holiaduron hyn yn uniongyrchol i QAA erbyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r ddogfen hunanwerthusiad.

Ymweliadau â chyflogwyr

61 Bydd yr adolygwyr yn ymweld â sampl o gyflogwyr i gwrdd â'r aelodau o staff sy'n cyfranogi'n uniongyrchol yn y rhaglen brentisiaeth, ac i gwrdd â phrentisiaid ar wahân i glywed am eu profiadau. Bydd yr adolygwyr yn gwneud pob ymdrech i leihau'r amhariad i brentisiaid a chyflogwyr gymaint ag sy'n bosibl.

62 Dewisir y cyflogwyr sydd i dderbyn ymweliad ar sail y trywydd(au) rhaglen. Bydd yr adolygwyr yn ceisio ymweld â sampl gynrychiadol o gyflogwyr, yn nhermau math a maint y cwmni, a dosbarthiad perthynol prentisiaid ar draws y cyflogwyr. Bydd hygyrchedd y safleoedd a'r mathau o gyflogwyr yn penderfynu a ellir gwneud ymweliadau wyneb yn wyneb neu ar ffurf rithwir. Er enghraifft, lle mae cwmnïau'n fusnesau bach a chanolig yn bennaf, gallai'r tîm adolygu ddewis gwneud cymysgedd o ymweliadau personol a rithwir. Bydd nifer a nodweddion y cyflogwyr yn ffactor allweddol wrth benderfynu ar hyd y broses adolygu gyfan.

63 Os bydd angen i'r tîm adolygu ymweld â nifer o fusnesau bach a chanolig, gallai adolygwyr unigol wneud ymweliadau er mwyn sicrhau bod cwrmpas yr adolygiad mor fawr ag sy'n bosibl.

64 Bydd ymweliadau â chyflogwyr yn cynnwys cyfarfod gydag aelodau o staff sy'n cefnogi prentisiaid yn y gweithle (er enghraifft, mentoriaid, hyfforddwyr a rheolwyr llinell) ac sy'n rheoli'r cynllun prentisiaeth, a chyfarfod gyda'r prentis/prentisiaid. Gall y tîm adolygu fod yn hyblyg o ran amseriadau ac mae'n cydnabod nad yw'r staff i gyd ar gael yr un pryd, ac felly gallent fod angen sefydlu trefniadau amgen/cyfarfodydd ychwanegol. Gellir cynnal cyfarfodydd yn unigol neu fel grŵp.

65 Mae cyflogwyr sy'n mynd i gyfarfodydd yn debygol o gael eu holi am eu cyfranogaeth yn y meysydd dilynol o'r ddarpariaeth Prentisiaeth Gradd:

- eu cyfranogaeth yn y broses o gynllunio a datblygu rhaglenni
- eu cyfranogaeth yn y gwaith o ddarparu'r rhaglen ac integreiddiad y dysgu a'r gwaith
- eu cyfranogaeth yn y gwaith o ddysgu ac addysgu
- sut mae prentisiaid yn cael eu cefnogi yn y gweithle, a'r gefnogaeth a gynigir gan y darparwr arweiniol
- cyfleoedd asesu a'u cyfranogaeth yn y broses asesu
- cyfleoedd ar gyfer darpariaeth gyfrwng Cymraeg
- pa drefniadau sy'n gweithio'n arbennig o dda a pha feysydd fyddai'n elwa o ddatblygiad pellach.

Yr amserlen ar gyfer adolygiadau

66 Bydd yr adolygiadau'n digwydd yn ystod tymhorau hydref a gwanwyn blwyddyn academaidd 2020-21. Bydd QAA yn ymgynghori â'r darparwr arweiniol i sicrhau amseriad priodol ar gyfer yr adolygiad. Mae amserlen i'w chael yn Atodiad A sy'n amlinellu'r prif ddigwyddiadau ar gyfer y rhaglen adolygu gyfan.

67 Mae amserlen ar gyfer yr adolygiadau unigol i'w chael yn Atodiad B sy'n nodi'r rhaglen o weithgareddau a wneir gan y darparwr arweiniol a QAA. Bydd y darparwr arweiniol yn cychwyn y broses drwy ddsbarthu holiaduron i gyflogwyr a myfyrwyr naw wythnos cyn yr ymweliad adolygu. Ar ôl cyflwyno'r ddogfen hunanwerthusiad, y dystiolaeth ategol a chyflwyniad y myfyrwr (os paratoir un), bydd y cyfnod cyn yr ymweliad yn para chwe wythnos. Bydd y cyfnod o baratoir adroddiad yn para pedair wythnos ar ôl diwrnod olaf yr ymweliad.

68 Caiff y dyddiadau cwblhau yn yr amserlen hon eu haddasu i ystyried gwyliau'r Nadolig, Dydd Calan a gwyliau'r Pasg, ac unrhyw wyliau cyhoeddus yn y DU a dyddiadau pan fydd QAA wedi cau.

Yr adroddiad adolygu

69 O ganlyniad i'r broses, datblygir adroddiad adolygu i bob darparwr arweiniol, a rhennir yr adroddiad hwn gyda CCAUC. Am fod hwn yn adolygiad datblygiadol, ni chaiff yr adroddiad ei gyhoeddi.

70 Bydd yr adroddiad adolygu:

- yn darparu cefndir i'r adolygiad, gan gynnwys crynodeb o'r ddarpariaeth, y trywydd(au) rhaglen a'r ymweliadau â chyflogwyr
- yn cofnodi nodweddion a bennwyd gan yr adolygwyr fel rhai sy'n cynrychioli arfer da, ac yn gwneud argymhellion fel sy'n briodol, yn cynnwys amserlen sy'n adlewyrchu pa mor argyfyngus yw'r camau gweithredu gofynnol
- rhoi manylion canfyddiadau'r tîm ar gyfer y pum maes allweddol, a manylion y ffordd y mae'r meysydd hyn yn cyfrannu at nodweddion arbennig y Brentisiaeth Gradd ar gyfer rhaglenni'r darparwr.

71 Pythefnos ar ôl yr ymgysylltiad adolygu, bydd QAA yn rhannu'r adroddiad drafft gyda'r darparwr arweiniol a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr, gan wahodd sylwadau am ei gywirdeb ffeithiol. Bydd gan y darparwr wythnos i ymateb iddo. Yna bydd QAA yn cwblhau'r adroddiad a'i anfon yn ôl at y darparwr. Ar y cam hwn, bydd QAA hefyd yn anfon yr adroddiad at CCAUC.

Cynllun Iaith Gymraeg QAA

72 Wrth gynllunio, gweithredu a darparu adroddiad am adolygiadau yng Nghymru, mae QAA wedi'i hymrwymo i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal ac mae'n rhoi ystyriaeth i ofynion a disgwyliadau'r Safonau Iaith Gymraeg. Gall y darparwr arweiniol wneud cais am weithredu'r adolygiad cyfan – neu rannau penodol ohono, er enghraifft, cyfarfodydd – yn ddwyieithog. Yn yr un modd, mae modd gweithredu ymweliadau â chyflogwyr yn ddwyieithog. I gael rhagor o wybodaeth, gwelwch Atodiad D.

Y gwerthusiad

73 Bydd QAA yn annog darparwyr arweiniol, y Prif Gynrychiolwyr Myfyrwyr, cyflogwyr, adolygwyr a Swyddogion QAA adolygu i gyfrannu at werthusiad o'r broses adolygu drwy wahodd sylwadau am yr adolygiadau y maent wedi cymryd rhan ynddynt.

Atodiad A: Amserlen y rhaglen adolygu

Mis	Gweithgareddau
Awst 2020	Cyfnod ymgynghori
Medi	Yr ymgynghoriad yn cau ar ddydd Llun 14 Medi
Hydref	Cyhoeddi fersiwn terfynol o'r llawlyfr yn yr wythnos yn cychwyn 5 Hydref QAA yn cynnal sesiwn briffio i ddarparwyr ar ffurf gweminar Darparwyr arweiniol yn derbyn manylion yr amserlenni a hysbysiad am aelodaeth y timau adolygu Dechrau paratoi'r dogfennau hunanwerthuso a chyflwyniad y myfyrwyr
Tachwedd	Cwblhau'r timau adolygu a manylion yr amserlen Gofyn i ddarparwyr arweiniol ddsbarthu holiaduron i gyflogwyr a myfyrwyr ar draws eu darpariaeth
Rhagfyr	Llwytho'r cyflwyniadau cyntaf a'u tystiolaeth ategol o ganol Rhagfyr hyd at Chwefror Dechrau dadansoddi'r cyflwyniadau a'u tystiolaeth ategol
Ionawr 2021	Parhau i lwytho'r cyflwyniadau a'u tystiolaeth ategol
Chwefror	Amserlennu ymweliadau adolygu ym misoedd Chwefror a Mawrth
Mawrth	Gwneud ymweliadau adolygu ac adrodd ar eu canlyniadau
Ebrill	Parhau i adrodd ar y canlyniadau
Mai	QAA yn paratoi adroddiad trosolwg
4 Mehefin 2021	Cwblhau adroddiad trosolwg a'i gyflwyno i CCAUC

Atodiad B: Amserlen yr adolygiad o'r darparwr

Wythnos waith	Darparwr	QAA
9 wythnos cyn yr ymweliad	Darparwr yn dosbarthu holiaduron i gyflogwyr a myfyrwyr	
6 wythnos cyn yr ymweliad	Darparwr yn llwytho cyflwyniad y darparwr a'r myfyrwyr a'r dystiolaeth ategol Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno holiaduron	Yr adolygwyr yn gwneud dadansoddiad pen desg
4 wythnos cyn yr ymweliad	Darparwr yn derbyn gwybodaeth am ganlyniadau rhith-gyfarfod y tîm, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> - cadarnhad o'r trywydd(au) rhaglen - cadarnhad o'r cyflogwyr sydd i dderbyn ymweliad yn rhan o'r trywydd(au) rhaglen - amserlen ddrafft - unrhyw dystiolaeth ychwanegol sy'n ofynnol 	Rhith-gyfarfod y tîm lle bydd y tîm adolygu'n trafod ei ddadansoddiad ac yn cadarnhau: <ul style="list-style-type: none"> - y trywydd(au) rhaglen - y cyflogwyr sydd i dderbyn ymweliad yn rhan o'r trywydd(au) rhaglen - amserlen yr adolygiad, ac - unrhyw dystiolaeth ychwanegol sy'n ofynnol
Wythnos cyn yr ymweliad	Darparwr yn llwytho tystiolaeth ychwanegol Darparwr yn cadarnhau rhaglen yr ymweliad a'r bobl a fydd yn mynd i'r cyfarfodydd	Tîm adolygu'n dadansoddi'r dystiolaeth ychwanegol
Yr ymweliad adolygu	Darparwr yn hwyluso'r ymweliad	Tîm adolygu'n treulio hyd at gyfanswm o ddau ddiwrnod yn ymgysylltu â'r darparwr, ei fyfyrwyr a'r cyflogwyr
Wythnos ar ôl yr ymweliad		Safoni'r canfyddiadau
2 wythnos ar ôl yr ymweliad	Darparwr yn gwirio'r adroddiad i weld a yw'n ffeithiol gywir ac yn cysylltu â phartneriaid/cyflogwyr os oes angen	Anfon adroddiad drafft at y darparwr arweiniol
3 wythnos ar ôl yr ymweliad	Darparwr yn cyflwyno unrhyw gywiriadau ffeithiol	
4 wythnos ar ôl yr ymweliad		Cwblhau adroddiad a'i anfon at y darparwr a CCAUC

Atodiad C: Cyflwyniad y myfyrwyr

Mae cyflwyniad y myfyrwyr yn ffordd i fyfyrwyr, drwy eu corff cynrychioli, roi gwybod i'r tîm adolygu cyn yr ymweliad adolygu am faterion a ystyriant yn berthnasol i bwrpas yr adolygiad. Mae'n gyfle i roi argraff i'r tîm adolygu o'r profiad o fod yn fyfyrwr ac yn brentis ar y rhaglenni, o safbwyntiau academaidd a'r gweithle. Mae QAA yn annog cyrff cynrychioli'r myfyrwyr i ddefnyddio'r cyfle hwn i hysbysu timau adolygu am eu barn a'u tystiolaeth, ac i weithio'n agos â'r darparwr arweiniol.

Dylai cyflwyniad y myfyrwyr gynnwys ymateb gan y myfyrwyr i hunanwerthusiad y darparwr arweiniol. Dylai hwn fod yn fyr, ond gall fod yn destun naratif neu'n bwyntiau bwled. Os bydd y corff cynrychiolwyr a'r darparwr arweiniol eisiau cyflwyno hunanwerthusiad ar y cyd, mae hyn yn dderbyniol cyhyd ag y bo'r ddogfen yn egluro bod yr hunanwerthusiad yn adlewyrchiad go iawn o farn y myfyrwyr/prentisiaid ac yn esbonio'n glir y broses a ddefnyddiwyd i sicrhau eu cyfranogaeth.

Ffurf, hyd a chynnwys

Ni ddylai'r cyflwyniad fod yn hirach na 4,000 o eiriau a dylai esbonio'r ffynonellau tystiolaeth a hysbysodd ei sylwadau a'i gasgliadau. Mae modd defnyddio fformatau eraill yn lle cyflwyniad ysgrifenedig neu fel deunyddiau i ategu'r prif gyflwyniad. Mae canllaw ar wahân ar gael gan QAA i helpu gyda'r opsiynau hyn os dewisir y dull hwn.⁸

Mae'n rhaid i'r cyflwyniad gynnwys datganiad i esbonio sut y cafodd ei gasglu, pwy yw ei awdur, ac i ba raddau y mae ei gynnwys wedi'i rannu gyda, a'i ardystio gan, y myfyrwyr i gyd sy'n astudio ar raglenni Prentisiaeth Gradd. Er enghraifft, os bydd y cyflwyniad yn gyfyngedig o ran casglu sylwadau grwpiau penodol o fyfyrwyr a phrentisiaid, dylid esbonio hynny'n glir.

Bydd y tîm adolygu'n croesawu cyflwyniad sy'n ceisio cynrychioli safbwyntiau cyfran mor eang ag sy'n bosib o'r myfyrwyr sydd ar raglenni Prentisiaeth Gradd. Anogir y myfyrwyr i ddefnyddio gwybodaeth sy'n bodoli'n barod, megis arolygon myfyrwyr mewnol a phapurau pwyllgorau. Ym mhrofiad QAA, bydd dadansoddiad beirniadol o'r data presennol yn fwy defnyddiol i'r tîm adolygu na chasgliad o ddata newydd. Os defnyddir holiaduron yn benodol ar gyfer y cyflwyniad hwn, rydym yn argymhell y dylid eu targedu at feysydd lle mae bylchau yn yr wybodaeth bresennol.

Wrth lunio'r cyflwyniad hwn a chasglu tystiolaeth ar ei gyfer, byddai'n ddefnyddiol petai'r myfyrwyr yn ystyried pa mor effeithiol yw'r dulliau o ran y canlynol:

- i ba raddau y mae cynllun y rhaglenni'n galluogi i'r myfyrwyr ddatblygu eu rolau a'u gyrfaoedd
- profiad o'r broses recriwtio a derbyn, gan gynnwys mewn perthynas â chydnabod dysgu blaenorol
- pa mor dda mae cynllun a darpariaeth y rhaglenni'n integreiddio dysgu yn y gwaith a dysgu i ffwrdd o'r gwaith
- sut mae'r gwahanol ddulliau o ddysgu ac addysgu'n cyfrannu at ateb anghenion y dysgwyr a'u sefyllfaoedd yn eu gweithleoedd
- ansawdd a hygyrchedd y gefnogaeth sydd ar gael i'r myfyrwyr drwy gydol eu prentisiaeth
- profiadau'r myfyrwyr o gael eu hasesu, gan gynnwys defnyddio eu gweithleoedd a'u profiadau gwaith go iawn.

⁸ Arweiniad am Gyflwyniadau Amgen gan Fyfyrwyr yn Adolygiadau QAA, sydd ar gael ar:

www.qaa.ac.uk/docs/qaa/guidance/canllawiau-ar-gyflwyniadau-amgen-qan-fyfyrwyr-mewn-adolygiadau-asa.pdf

Ni ddylai'r cyflwyniad:

- enwi, na thrafod gallu, cyflogwyr nac aelodau unigol o staff
- drafod cwynion personol
- gynnwys sylwadau gan fyfyrwyr unigol nad ydynt efallai mewn sefyllfa dda i gynrychioli grŵp ehangach.

Dyddiad darparu cyflwyniad

Dylid anfon y cyflwyniad at QAA chwe wythnos cyn yr ymweliad adolygu, ar yr un pryd â dogfen hunanwerthusiad y darparwr arweiniol. Bydd QAA yn esbonio i'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr sut i gyflwyno'r cyflwyniad yn electronig. Os bydd y cyflwyniad yn gyfrinachol, dylai'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr gysylltu â QAA i wneud trefniadau ar wahân i'w gyflwyno.

Cyfrinachedd

Mae QAA yn disgwyl i'r corff myfyrwyr rannu ei gyflwyniad gyda'r darparwr arweiniol, ac i'r darparwr arweiniol rannu ei hunanwerthusiad gyda'r corff myfyrwyr. Mae'r gallu yma i fod yn agored yn fanteisiol oherwydd mae'n galluogi'r tîm adolygu i drafod y ddwy ddogfen yn rhydd gyda'r darparwr arweiniol a'r myfyrwyr yn ystod yr adolygiad, a gwirio cywirdeb eu cynnwys, ac mae'n annog agwedd agored a gonest i'r adolygiad. Fe allai'r corff myfyrwyr hefyd, os bydd yn dymuno hynny, ofyn i'r adolygwyr gadw ei gyflwyniad yn gyfrinachol gan QAA a'r tîm yn hytrach na'i rannu gyda'r darparwr arweiniol. Bydd QAA yn parchu'r dymuniad yma, ond gofynnir i'r myfyrwyr gofio ei bod hi'n anochel y bydd cyfyngiadau ar y defnydd y gall y tîm ei wneud o gyflwyniad cyfrinachol am nad yw staff y darparwr arweiniol yn ymwybodol o'i gynnwys.

Os nad yw cynnwys y cyflwyniad i gael ei rannu gyda'r darparwr arweiniol, rhaid nodi hyn yn glir ar flaen y ddogfen.

Atodiad D: Yr iaith Gymraeg

Mae QAA wedi'i hymrwymo i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth wneud ein gwaith yng Nghymru. Caiff pob dogfen sy'n ymwneud â'r Adolygiad o Brentisiaethau Gradd, yn ogystal â phob adroddiad adolygu, eu cynhyrchu yn y ddwy iaith.

Ar gyfer adolygiadau o ddarparwyr yng Nghymru, rydym yn ceisio penodi adolygwyr a rheolwyr adolygiad sy'n ddwyieithog. Mae ein proses hysbysebu a phenodi'n cefnogi'r amcan yma'n weithredol.

Mewn unrhyw adolygiad o ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru, rydym yn cydnabod bod gan bob unigolyn yr hawl i ddewis y Gymraeg fel cyfrwng a bod gan bob adolygwr dwyieithog yr hawl i siarad Cymraeg. Byddwn fel arfer yn ceisio cytundeb i ddefnyddio cyfleusterau cyfieithu sydd gan y darparwr yn barod, neu os nad yw hyn yn bosibl, byddwn yn darparu ein cyfleusterau cyfieithu ysgrifenedig neu gyfieithu ar y pryd ein hunain.

Yn y cyfarfodydd cynllunio adolygiad cychwynnol rydym yn sicrhau bod y Swyddog QAA yn canfod pa iaith a ddewiswyd gan y darparwr a'r cyfranogwyr unigol ar gyfer gweithredu'r adolygiad ynddi, gan benderfynu pa elfennau o'r broses adolygu sydd i gael eu gweithredu yn y Gymraeg, a byddwn yn gwneud trefniadau cyfieithu os nad yw pob un o'r cyfranogwyr yn ddwyieithog.

Gall darparwyr a myfyrwyr gyflwyno eu dogfennau yn y naill iaith neu'r llall, yn ôl eu dewis.

Yn dilyn cytundeb ynglŷn â pha elfennau o'r adolygiad fydd yn cael eu gweithredu'n ddwyieithog, byddwn yn gwneud trefniadau, ac yn talu costau, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer y gweithgareddau adolygu hynny yr ydym wedi cytuno i'w gweithredu'n ddwyieithog.

Rydym yn cydnabod bod maint y defnydd a wneir fel arfer o'r Gymraeg a'r Saesneg yn amrywio rhwng darparwyr a gweithleoedd. Rydym yn parchu'r gwahaniaethau hyn ac yn ceisio penodi rheolwyr adolygiad dwyieithog i hwyluso'r broses adolygu ar gyfer darparwyr lle defnyddir y Gymraeg yn helaeth.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn y Gymraeg hefyd.

Awst 2020

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2020
Adeiladau Cambrian, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FL
Rhifau elusen gofrestrdedig 1062746 ac SC037786

Ffôn: 01452 557000

Gwefan: www.qaa.ac.uk